Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ruthin School**
**Ffordd Yr Wyddgrug**
**Rhuthun**
**Sir Ddinbych**
**LL15 1EE**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2021**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ruthin School

Mae Ruthin School yn ysgol ddydd ac ysgol breswyl gyd-addysgol sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 10 a 20 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar gyrion Ruthun, sef tref farchnad fach yn Nyffryn Clwyd, Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn ymddiriedolaeth elusennol, a'r Cyngor Rheoli yw ei chorff llywodraethol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i Estyn gynnal arolygiad ffocysedig â rhybudd o Ruthin School o dan adran 163 Deddf Addysg 2002. Roedd ffocws penodol i'r arolygiad. Yn gyntaf, i werthuso cynnydd yr ysgol o ran bodloni'r argymhellion a adawyd yn dilyn yr ymweliad ffocysedig dirybudd ym mis Tachwedd 2019 ac, yn ail, i werthuso capasiti'r ysgol i fodloni safon 3 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, sy'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion.

Ymwelodd arolygwyr o Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â'r ysgol ar 24 Chwefror 2021 a chynhalion nhw rai gweithgareddau arolygu o bell hefyd. Ystyrion nhw dystiolaeth o ystod o ffynonellau, yn cynnwys:

- cyfweliadau â staff, yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth, ac unigolyn diogelu dynodedig
- cyfweliadau ag aelodau o'r Cyngor Rheoli, yn cynnwys y dirprwy gadeirydd a'r ymddiriedolwr sydd â chyfrifoldeb penodol am ddiogelu
- craffu ar ddogfennau, yn cynnwys polisïau, cofnodion hyfforddiant, nodiadau cyfarfodydd, ffeiliau staff a disgyblion
- holiaduron athrawon
- cyfweliadau ag ymddiriedolwyr y Cyngor Rheoli
- cyfweliadau â staff
- trafodaethau â disgyblion

## Prif ganfyddiadau

At ei gilydd, mae'r ysgol yn parhau i fethu bodloni safon 3 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r Cyngor Rheoli yn dechrau ymateb yn addas i argymhellion yr ymweliad ffocysedig blaenorol. Mae cadeirydd y Cyngor, a benodwyd yn ddiweddar, gyda chefnogaeth yr ymddiriedolwr sydd â chyfrifoldeb arbennig am ddiogelu, wedi ymrwymo i sefydlu'r newid angenrheidiol ac arwyddocaol yn niwylliant diogelu'r ysgol a sicrhau'r cod ymddygiad uchaf posibl gan bob un o'r staff.

Fodd bynnag, mae nifer o feysydd allweddol ac arwyddocaol y mae angen eu cryfhau ar frys o hyd, er mwyn galluogi'r ysgol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol. Cefnogir y farn hon gan y gwerthusiadau allweddol canlynol:

- Nid yw rheolwyr ac arweinwyr wedi blaenoriaethu'r angen i newid diwylliant diogelu'r ysgol yn ddigon cryf i sicrhau eu bod yn datblygu amgylchedd diogel a

chefnogol ar draws holl feysydd gwaith yr ysgol, lle caiff disgyblion eu gwerthfawrogi a'u parchu.

- Wrth asesu risgiau, nid yw'r Cyngor Rheoli bob amser yn gwerthuso effaith ymddygiad staff ar les a diogelwch disgyblion.
- Megis dechrau datblygu y mae prosesau i fonitro a sicrhau ansawdd effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion, a chynllunio ar gyfer gwella.
- Mae gormod o amrywiad yn nealltwriaeth staff o weithdrefnau'r ysgol wrth rannu pryderon â disgyblion neu aelodau staff eraill, sy'n arwain at oedi wrth wneud atgyfeiriadau priodol i wasanaethau cymdeithasol.

## Argymhellion

1 Dylai'r ysgol roi trefniadau cadarn ar waith ar gyfer adrodd am bryderon diogelu i uwch arweinwyr ac i'r Cyngor Rheoli. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob un o'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau ynghylch diogelu a'u bod yn glir ynghylch at bwy i gyfeirio pan fydd ganddynt bryderon.

2 Fel rhan o'r diwylliant diogelu yn yr ysgol, dylai pob aelod o staff hyrwyddo a modelu'r lefelau ymddygiad uchaf ym mhob agwedd ar eu gwaith.

3 Dylai'r ysgol sicrhau trefniadau arwain sefydlog ar frys i sicrhau cynnydd amserol wrth feithrin diwylliant diogelu priodol, a goruchwylio trefniadau diogelu.

4 Dylai cofnodion yr ysgol o gyfarfodydd y Cyngor Rheoli gynnwys adroddiadau diogelu manwl, a dylent gofnodi a yw aelodau yn derbyn neu'n gwrthod y manylion ym mhob adroddiad diogelu, neu'n ymholi ynglŷn â nhw, ynghyd â chamau gweithredu perthnasol sy'n codi. Dylid gwneud yr adroddiadau hyn yn rheolaidd, a dylent gynnwys dadansoddiad o batrymau gweithgarwch. Dylai adroddiadau roi ystyriaeth benodol i ddefnyddio cosbau, cofnodi achosion o ataliaeth gorfforol, gwaharddiadau ac atgyfeiriadau diogelu i wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol neu'r heddlu.

## Cryfderau

- Mae'r ysgol wedi cymryd camau perthnasol i sicrhau cydbwysedd mwy addas rhwng hyrwyddo cynnydd academaidd disgyblion a lles a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Yn ychwanegol, ceir cyfathrebu cryfach rhwng adrannau academaidd a bugeiliol yr ysgol. Mae'r ysgol wedi gofyn am gyngor ac arweiniad gan arbenigwyr allanol profiadol i ddatblygu polisïau a phrosesau addas sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o feysydd perthnasol o ddyletswydd yr ysgol i ddiogelu plant. Mae'r trefniadau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar les a datblygiad cymdeithasol disgyblion.
- Mae strwythurau rheoli llinell yn glir, a chaiff cyfrifoldebau eu dirprwyo'n briodol i alluogi staff arbenigol a'r rhai sydd â rolau penodol i gyflawni eu dyletswyddau â'r graddau angenrheidiol o ymreolaeth. Mae'r unigolyn diogelu dynodedig yn darparu adroddiadau diogelu misol i'r Cyngor Rheoli. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymddiriedolwyr am faterion allweddol yn ymwneud â lles disgyblion a materion diogelu.
- Mae dull tîm yn dod i'r amlwg o ran diogelu yn sgil penodi 'ymddiriedolwr sydd ag arbenigedd a diddordeb arbennig mewn diogelu' yn ddiweddar i oruchwylio

gwaith yr unigolyn diogelu dynodedig a'i ddirprwy. Mae rôl a chyfrifoldebau'r unigolyn diogelu dynodedig wedi'u hamlinellu'n glir i sicrhau bod yr ysgol yn ymateb yn briodol i bryderon staff am les plant neu gŵynion am aelodau staff eraill. Nodwyd cymorth a hyfforddiant arbenigol yn ddiweddar i ddatblygu'r lefel briodol o arbenigedd ar gyfer y ddau aelod staff allweddol hyn.

- Yn ddiweddar iawn, mae'r Cyngor Rheoli wedi sefydlu is-bwyllgorau i helpu goruchwylio a rhoi cyfeiriad gwell i waith yr ysgol. Mae'r pwyllgor diogelu yn bwriadu gweithio'n agosach gydag asiantaethau allanol, fel cyrff iechyd a gwasanaethau plant i ymateb i bryderon, cryfhau cydweithio a mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.
- Mae bron pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar amddiffyn a diogelu plant ar y lefel briodol. Erbyn hyn, caiff nyrsys ysgol eu goruchwylio'n rheolaidd gan weithiwr iechyd proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn deall eu dyletswydd a'u cyfrifoldeb am adrodd ar bryderon ynghylch diogelu, ac mae mwyafrif y staff yn gwybod i bwy ddylen nhw roi gwybod am unrhyw bryderon. Fodd bynnag, mae'r lefel hon o wybodaeth yn annigonol o hyd.

**Meysydd i'w datblygu**

- Ar draws yr ysgol, mae gormod o amrywiad yn nealltwriaeth arweinwyr a staff o ran i bwy y dylent roi gwybod am bryderon diogelu plant. Nid yw lleiafrif o staff yn ddigon clir am y polisi amddiffyn plant a'r broses atgyfeirio, sy'n arwain at oedi mewn gwneud atgyfeiriadau priodol i wasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn ddiffyg sylweddol.
- Mae lleiafrif o staff yn ansicr neu'n ddihyder ynglŷn â'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Polisi Amddiffyn Plant ar gyfer cyfeirio pryderon am ymddygiad ac agweddau staff at uwch arweinwyr.
- Er bod dull tîm sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â diogelu, nid yw'r cydbwysedd o ran rhywedd yn y tîm diogelu yn adlewyrchu cymeriad cyd-addysgol yr ysgol. Gallai hyn atal disgyblion rhag troi at y tîm.
- Er bod y polisi amddiffyn plant yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r materion allweddol sy'n ofynnol, mae ychydig o feysydd y polisi yn aneglur. Yn ychwanegol, ceir gwybodaeth gyfyngedig am faterion fel camfanteisio'n rhywiol ar blant a chaethwasiaeth fodern.
- Er bod cyfeiriadau addas at ddogfennau statudol allweddol fel Cadw Dysgwyr yn Ddiogel o fewn y polisi amddiffyn plant, nid ydynt yn cyfeirio at fersiynau diweddaraf y dogfennau hyn.
- Nid yw ymddiriedolwyr yn gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth mewn adroddiadau diogelu misol eto i helpu nodi tueddiadau a materion allweddol sy'n effeithio ar les disgyblion. Mae hyn yn atal arweinwyr rhag nodi blaenoriaethau perthnasol a gwerthuso eu heffaith.
- Mae nifer y newidiadau mewn arweinyddiaeth dros y 12 mis diwethaf yn tanseilio gallu'r ysgol i fagu hyder yn y tîm arweinyddiaeth a'u gwaith i ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen i wella diwylliant diogelu'r ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 1.

**Safon 2:  Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3:  Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn.  Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

3(2b) – Diogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cydymffurfio â 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002'.

**Safon 4:  Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5:  Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6:  Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7:  Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.  I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodir uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2021